

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Ionawr 5ed, 2017 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Marian Evans, (Cadeirydd); Gwilym M Thomas, (Is gadeirydd); Naomi Jones; William Ifor Hughes; Dafydd Williams; Trefor W Jones; Alwen Evans; Anwen Jones; Tegid Jones; Thomas Prys Jones; Elis Gwyn Jones; Aled Lloyd Evans; Sian Angharad Parry a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Margaret Griffith ac Ifor Wyn Davies.
2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Ragfyr 1af, 2016.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol. Y Cyngorwyr William Ifor Hughes yn datgan buddiant personol yn rhif 6 Cyngor Gwynedd Cais Cynllunio rhif 1 ar y rhaglen waith, Nantoer, Pencaenewydd; mae'n gymydog i'r sawl sy'n gwneud y cais. Y Cyngorwyr Elis Gwyn Jones yn datgan buddiant personol yn rhifau 14 a 15 ar y rhaglen waith, meinciau'r Cyngor a Hysbysfwrdd Llangybi; mae wedi cyflwyno prisiau am wneud y gwaith i'r Cyngor.
5. Cyngor Gwynedd.
  1. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol; Arolygon Etholiadol Gwynedd; cyflwyniad gan y Comisiwn Ffiniau. Bydd cyflwyniad yn Siambr Dafydd Orwig yng Nghaernarfon ar Chwefror 9fed ac yn Siambr Dolgellau, Penarllog, Dolgellau ar Chwefror 14eg, rhagor o fanylion i ddilyn. Derbyniwyd er gwybodaeth.
  2. Pennaeth Cyllid; Praesept 2017/18. Bydd y Pwyllgor Cynllun Busnes yn cyfarfod i bennu cyllideb ar gyfer 2017/18 nos Iau, Ionawr 19eg yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog a bydd cyfarfod llawn y Cyngor nos Iau Ionawr 26ain eto yn Neuadd Goffa Chwilog i gadarnhau penderfyniad y Pwyllgor.
  3. Gwasanaeth Cynllunio, Swyddog Gorfodaeth Cynllunio; Adwy gyferbyn â cheg lôn Tyddyn Gwyn ar y ffordd rhwng Llanystumdwy a Rhoslan. Roedd llythyr yn dweud bod y perchennog wedi cytuno i gau'r fynedfa gyda ffens. Penderfynwyd ateb drwy ofyn am i'r clawdd gael ei ddychwelyd i fel yr oedd cynt.
  4. Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol); Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau. Penderfynwyd derbyn ac anfon yn ôl i ofyn beth ydi'r broses cael aelodau i'r pwyllgor yma.
  5. Rheoleiddio; Ymateb: Chwilog a Llanarmon. Roedd amcanbris o faint fyddai'n gostio i wneud y llwybr nad oedd yn gwneud llawer o synnwyr i'r Cyngorwyr. Penderfynwyd y byddai'r Cyngorwyr yn gwneud ymholiadau pellach.
6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.
  1. Cais Rhif C16/1335/41/RC – Diddymu Cytundeb 106 fforddiadwy; Nantoer, Pencaenewydd. Ni chymerodd y Cyngorwyr William Ifor Hughes ran yn y drafodaeth. Y penderfyniad oedd dim gwrthwynebiad a mynegi pryder am y gwendidau yn y cytundebau 106 a gofyn am i rywun o Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd ddod i gyfarfod o'r Cyngor i egluro'r gwahaniaeth rhwng y gwahanol cytundebau 106.

2. Cais Rhif C16/1603/41/AM – Cais amlinellol ar gyfer codi 9 tŷ fforddiadwy ynghyd â darparu mynedfa a lôn stâd; Cae Bodlondeb ger Ael y Bryn, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi'r egwyddor ond mynegi pryder am y dŵr ffôs sy'n rhedeg yng nghefn y tai arfaethedig.

\* Trwy Ganiatâd y Cadeirydd:

3. Cais Rhif C16/1538/41/LL – Cais i godi estyniad; Rhosgyl Fawr, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.

## **7. Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Rhoslan

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

Llanystumdwy

8. Cartrefi Cymunedol Gwynedd; 4 Maes Myrddin, Chwilog. Mae'r fflat yma yn wag ar hyn o bryd. Derbyniwyd er gwybodaeth.

9. Swm Priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; Gwariant Adran 137: y terfyn ar gyfer 2017-18 ydi £7.57c am bob etholwr. Derbyniwyd.

10. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; gwahoddiad i'r Cadeirydd a'r Clerc. Nid oedd yn gyfleus i fynd i'r cyfarfod yma yn Llandudno.

11. Etholiadau Cyngorau Cymunedau a Thref 2017. Daeth llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru ynghylch gweithredu i helpu adeiladu cadernid ac adfywiad mewn cyngorau cymuned a thref. Roedd linc i daflen i helpu'r Cyngor mewn ymdrechion i godi ymwybyddiaeth ac annog cyfranogaeth yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017. Penderfynwyd rhoi'r daflen ar wefan y Cyngor.

12. Un Llais Cymru; cwrs hyfforddiant Cyllid Llywodraeth Leol yn Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth nos Iau Chwefror 2il, 6.30pm tan 9pm. Penderfynwyd enwebu'r Cadeirydd a'r Clerc i fynd ar y cwrs yma ac oherwydd ei fod yn cael ei gynnal ar noson arferol cyfarfod y Cyngor, penderfynwyd cynnal cyfarfod mis Chwefror nos Iau Ionawr 26ain am 7pm yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

13. Gohebiaeth oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru; difrod i loches bws Maes Myrddin, Chwilog, Cyfeirnod Trosedd: RM16022715. Penderfynwyd derbyn y llythyr yn dweud bod ymholiadau'r heddlu am hwn wedi'u cwblhau.

### **Materion Ariannol**

14. Meinciau'r Cyngor; mae dwy ar y llwybr ger y briffordd o Lanystumdwy am Gricieth, un ger mynedfa Stâd Cae Capel yn Chwilog, un yn y Cae Chwarae yn Llangybi. Trafod pris am wneud y gwaith sydd angen ei wneud. Ymneilltuodd y Cyngorydd Elis Gwyn Jones cyn trafod y mater yma. Penderfynwyd derbyn pris cwmni Trefn am £290- am wneud y gwaith angenrheidiol. Nid oes angen sylw i'r fainc agosaf at Gricieth. Mae'r gwaith yma i gael ei wneud pan fydd y tywydd yn caniatáu.

15. Hysbysfwrdd Llangybi. Trafod pris am brynu a gosod hysbysfwrdd. Eto ymneilltuodd y Cyngorydd Elis Gwyn Jones tra roedd y mater yma'n cael ei drafod. Penderfynwyd derbyn pris cwmni Trefn am £153.20c am wneud y gwaith, cyflenwi a gosod.

Penderfynwyd ei osod ar wal y lloches bws yn Llangybi.

16. Archwiliadau Ariannol Allanol; gohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru.

Penderfynwyd derbyn y llythyr yn dweud bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi addo y byddant yn gweithio ar ddatblygu dulliau o gefnogi'r Cynghorau Cymuned a Thref gyda'r broses archwilio allanol at y dyfodol, yn cynnwys gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth am natur a chynnwys yr archwiliadau.

17. Gohebiaeth dyddiedig 15 Rhagfyr 2016 oddi wrth BDO, yr Archwilwyr Ariannol Allanol yn dweud eu bod bellach wedi dod i gytundeb gyda Swyddfa Archwilio Cymru a'r darparwr arall mewn perthynas â'r trefniadau anfonebu ar gyfer yr archwiliad am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2016. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am anfonebu am y gwaith maent wedi'i wneud ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ac y dylai'r Cyngor yma dderbyn yr anfoneb cyn bo hir. Penderfynwyd derbyn y llythyr.

18. Adroddiad ariannol ar lafar.

Rhoddodd y Clerc adroddiad fanwl o'r union sefyllfa ariannol, bod y gwariant yn unol â'r gyllideb bennwyd ac nad oes peryg o or wario a'r Cyngor yn mynd i ddyled.

Dal i ddisgwyl anfoneb oddi wrth BDO (Swyddfa Archwilio Cymru) am yr archwiliad allanol. Heb gael anfoneb am gadw safle bedd D Lloyd George yn daclus na Neuadd Llanystumdwy am gynnal tri chyfarfod o'r Cyngor. Mae cais am ad-daliad o £612.50c am arian llwybrau gan Gyngor Gwynedd wedi'i wneud.

19. Anfonebau angen eu talu:

a. Criccieth Cleaning Ltd; taliadau am lanhau'r llochesi bysiau, Gorffennaf 5ed a Hydref 6ed; £103- x 2 +TAW = £247.20c, Taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

b. Cyflog chwarter y Clerc wedi'i rannu gyda Chyllid a Thollau EM; cyflog gross £900-, Cyllid a Thollau EM £900- x 20% = £180-, taliad sic rhif 100942; Cyflog net = £720-, taliad sic rhif 100943. Penderfynwyd ei dalu.

c. Costau chwarter y Clerc, £150.05c, taliad sic rhif 100944. Penderfynwyd ei dalu.

\*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

ch. Mr Clifford Hughes am ei waith drwy'r tymor yn torri gwellt Cae Chwarae Llanybi £612.85c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

d. Mr D E Williams am ei waith yn trwsio llochesi bws y Cyngor, dau banel yn Lodge Trallwyn ac un panel ym Maes Myrddin, Chwilog, £350- +TAW = £420-, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

dd. Atkin Groundworks Ltd. am waith torri a chlirio gyferbyn â rhes Maenywern, Llanystumdwy, £697- +TAW, cyfanswm £836.40c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

